Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	**Swyddog Gwybodaeth, Atgyfeirio a Sgrinio – Tîm IAA**
Lleoliad:	**Llys Einion, Stryd yr Eglwys, Abertyleri**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Statws Contract:	**31.03.2024**
Cyfeirnod Swydd:	**NEWYDD**
Oriau:	**18.5 awr yr wythnos**
Cyflog:	**Gradd 5 (£25,409 – £28,371 y flwyddyn)**

Crynodeb Swydd

Cyfrannu at weithrediad effeithiol y Tîm Dyletswydd ac Atgyfeirio ar gyfer y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) mewn gwasanaethau plant mewn ymateb i ymholiadau a dderbynnir. Darparu gwasanaeth effeithlon ar gyfer rheoli a phrosesu atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan ddinasyddion ac asiantaethau eraill. Sichau ymateb prydlon a phriodol i gysylltiadau yn unol â gweithdrefnau ac amserlenni statudol.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn y Tîm IAA ar gyfer unigolyn gyda chymhelliant sydd â sgiliau trefnu cryf a'r gallu i berfformio holl swyddogaethau'r swydd i gydymffurfio gyda deddfwriaeth ac o fewn polisïau, nodau a chanllawiau rhaglen.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu'n briodol pan dderbynnir atgyfeiriadau, yn cynnwys adolygu nodiadau achos, deunydd perthnasol arall a chydlynu gydag asiantaethau proffesiynol i gasglu gwybodaeth fel y cynghorir gan y Rheolwr Tîm cyn dod i gysylltiad gyda gweithwyr proffesiynol neu aelodau o'r cyhoedd. Byddwch yn darparu gwybodaeth gywir ar yr opsiynau sydd ar gael mewn ymateb i ymholiadau dechreuol a lle bo angen drefnu ar gyfer gwybodaeth fwy arbenigol i fod ar gael i ymholwyr.

Bydd gennych y gallu i gadw'n bwyllog a gyda'ch ffocws ar dasg tra'n gweithio dan bwysau. Byddwch yn gallu gweithio gydag amrywiaeth o opsiynau cyfryngau, blaenoriaethu llwyth gwaith a gweithio ar eich cymhelliant eich hun. Bydd gennych brofiad o ddelio gyda'r cyhoedd a chydymdeimlo gyda phobl a all fod yn profi straen neu bryder yn eu bywydau.

Mae'r gofynion hanfodol ar gyfer y swydd yn cynnwys 3 x TGAU neu gyfwerth, Gradd A-C yn cynnwys Saesneg, NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol, profiad o ddelio gyda'r cyhoedd mewn gosodiad gofal cwsmeriaid, a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o faterion a all effeithio ar deuluoedd, plant a phobl ifanc.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio.

Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **01/06/2023**

Dyddiad Cyfweliadau: